

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin**19 Gorffennaf 2018 - 10.00 tan 12.00****Ystafell Bwyllgor 1, Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Caring Together
Western Bay**
Health and Social Care Programme
**Gofalu Gyda'n Gilydd
Bae'r Gorllewin**
Rhaglen Gofal Iechyd a Chymdeithasol

Cofnodion y Cyfarfod**Yn bresennol**

Enw	Sefydliad	Blaenlythrennau
Yr Athro Andrew Davies (Is-gadeirydd)	BI PABM	AD
Maggi Berry	BI PABM	MB
Siân Harrop-Griffiths	BI PABM	SHG
Y Cynghorydd Dhanisha Patel	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	DP
Darren Mephram	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	DM
Susan Cooper	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	SC
Y Cynghorydd Peter Richards	CBS Castell-nedd Port Talbot	Cyfrifoldeb Rhiant
Andrew Jarrett	CBS Castell-nedd Port Talbot	AJ
Y Cynghorydd Clive Lloyd	Cyngor Abertawe	CL
Dave Howes	Cyngor Abertawe	DH
Caritas Adere	Cyngor Abertawe (ymgyngorydd cyfreithiol)	CA
Gaynor Richards	CGG CNPT	GR
Linda Jagers	Cynrychiolydd Gofalwyr	LJ
Kelvin Jones	Defnyddiwr Gwasanaeth/Cynrychiolydd Dinasyddion	KJ
Kelly Gillings	Bae'r Gorllewin	KG
Louise Fraser-Cole	Bae'r Gorllewin	LFC
Yn bresennol		
Keith Moultrie (Eitemau 5 a 7 yr Agenda)	SGC	KM
Bruce Mclernon	Fforwm Gofal Cymru	BMc
Steve Davies	Bae'r Gorllewin	SD
Nicola Trotman	Bae'r Gorllewin	NT
Elaine Tanner	Bae'r Gorllewin	ET
Allison Rees	SAC	CG
Ymddiheuriadau		
Y Cynghorydd Rob Jones (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot	RJ
Tracey Myhill	BI PABM	AH
Steven Phillips	CBS Castell-nedd Port Talbot	SP
Y Cynghorydd Alan Lockyer	CBS Castell-nedd Port Talbot	AL
Phil Roberts	Cyngor Abertawe	PR
Y Cynghorydd Rob Stewart	Cyngor Abertawe	RS
Y Cynghorydd Mark Child	Cyngor Abertawe	MC
Y Cynghorydd Huw David	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	HD
Y Cynghorydd Phil White	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	PW
John Hughes	Unison	JH
Melanie Minty	Fforwm Gofal Cymru	MM
Adele Rose-Morgan	Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth/Dinasyddion	ARM

Debbie Smith	Cyngor Abertawe	DS
Emma Tweed	Gofal a Thrwsio	ET
Carwyn Tywyn	Mencap Cymru	CT

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
1	Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	
1.1	Croesawodd AD bawb i'r cyfarfod ac ymddiheurodd ar ran y Cadeirydd a oedd yn sâl. Dymunwyd gwellhad buan i'r Cadeirydd	
1.2	Mae amserlenni cyfarfodydd Cabinet Abertawe wedi newid ac maent bellach yn gwrthdaro â dyddiadau gwreiddiol cyfarfodydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Aildrefnwyd amserau a, lle y bo'n angenrheidiol, ddyddiadau'r cyfarfodydd hyn ar gyfer y dyfodol er mwyn cydweddu â'r newid. Ymddiheurodd Dirprwy Arweinydd Abertawe am beidio â bod yn bresennol - bydd yn bresennol ar ôl cyfarfod y Cabinet.	
1.3	Cyflwynwyd Kelly Gillings, sydd newydd cael ei phenodi'n Swyddog Arweiniol Dros Dro Bae'r Gorllewin, i'r Bwrdd.	
1.4	Croesawyd Kelvin Jones, defnyddiwr gwasanaeth/cynrychiolydd dinasyddion	
1.5	Mae Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnal adolygiad o CGI; Mae Allison Rees yn bresennol i arsylwi ar y cyfarfod	
2	Datganiadau o Ddiddordeb a Chôd Ymddygiad	
2.1	Diwygiwyd y Côd Ymddygiad yn unol ag argymhellion y Bwrdd. O ganlyniad, mae angen i bob aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol lofnodi copi o'r Côd Ymddygiad diwygiedig yn ogystal â'r Datganiad o Ddiddordeb blynyddol.	Aelodau'r Bwrdd i lofnodi ffurflenni'r CY a'r Datganiad o Ddiddordeb diwygiedig
2.2	Dywedodd GR wrth y Bwrdd am ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas ag eitem 8 yr agenda, sef y Diweddaraf am CGI Ebrill - Mehefin 2018. Cwblhawyd Datganiad o Ddiddordeb.	
3	Cofnodion Drafft y Cyfarfod Blaenorol - 9 Ebrill 2018	
3.1	Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.	
4	Materion yn codi a chofnod gweithredu	
4.1	Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnod gweithredu diwethaf.	
5	Adolygiad Cwmpasu Rhaglen Bae'r Gorllewin	
5.1	Rhoddodd KM gyflwyniad am ganfyddiadau'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus ac opsiynau'r Adolygiad Cwmpasu a gomisiynwyd. Mae'r cyflwyniad bellach ar gael yn electronig	
5.2	Esboniodd KM gwmpas y prosiect; nodi'r cynnydd a wnaed dros y pum mlynedd diwethaf ac ystyried effeithiau'r ddeddfwriaeth newidiol. Bydd yr SGC hefyd yn cynnig gweledigaeth a ffocws newydd er mwyn datblygu'r gwaith. Cwblhawyd tri chwarter o'r adolygiad cwmpasu.	
5.3	Teimlai'r SGC fod yr ymagwedd hyd yn hyn yn llwyddiannus ac maent yn teimlo bod yr ethos o ddatblygu'n rhanbarthol a darparu'n lleol yn gweithio'n dda. Mae'r ffordd hon o weithio wedi arwain at gyflawni llawer o brosiectau rhanbarthol sydd wedi cael eu rheoli'n effeithiol.	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
5.4	Mae'r SGC hefyd wedi nodi bod Swyddfa Rhaglen BG yn gweithio'n dda, er ei bod yn fwy o gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'r SGC yn rhybuddio yn erbyn lleihau nifer y lleoedd yn swyddfa'r rhaglen yn unol â lleihau'r nifer cyffredinol o adnoddau sydd ar gael o ganlyniad i newidiadau yng ngrantiau'r llywodraeth a symud Pen-y-bont ar Ogwr i Gwm Taf	
5.5	Mae dyheadau cyffredinol BG yn glir ond mae angen eglurder o ran trefniadau partneriaeth ac arweinyddiaeth wrth symud ymlaen.	
5.6	Yn unol â chynllun BG ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd angen i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu arweiniad clir o ran y Cynllun Ardal, yn ogystal â hyrwyddo model lechyd a Gofal Cymdeithasol cydlynol.	
5.7	Awgrymodd yr SGC y dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol achub ar y cyfle hwn i ddatblygu pedwar maes allweddol: gweledigaeth a blaenoriaethau; cyflwyno'r rhaglen; trefniadau llywodraethu a swyddfa'r rhaglen.	
5.8	Cydnabuwyd bod hyn yn gyfle delfrydol i gynnwys y cyhoedd a staff, ac i weithio gyda dinasyddion.	
5.9	Mae'r SGC yn awgrymu'n gryf y dylid cynnal ymarfer dwys gyda phartneriaid i gytuno ar flaenoriaethau newydd a sut i ddiwygio'r Cynllun Ardal. Yn sgîl yr ymarfer hwn, argymhellir y dylai'r Bwrdd gynnal cyfres o ddigwyddiadau cynnwys i randdeiliaid er mwyn gallu profi a datblygu'r Cynllun Ardal.	
5.10	<p>Mae'r SGC wedi nodi nifer o awgrymiadau ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai swyddogaeth cynghori dinasyddion y Bwrdd barhau i fod ar gael ond argymhellir y dylai aelodaeth gynnwys tai hefyd • Nid yw'r SGC yn teimlo bod dadl gref dros gynnal cyfarfodydd y BPRh yn gyhoeddus; teimlai y byddai'r Bwrdd yn cael ei herio'n amhriodol yn ystod cyfarfodydd. Mae'r BPRh yn atebol gan gyrrff cyhoeddus ac felly mae'n atebol gan y cyhoedd. • Gellid cynnwys arbenigedd ychwanegol • Sicrhau bod y broses benderfynu mewn sefyllfa unigryw i alluogi goruchwyllo a chynnig cyngor 	
5.11	Rôl y Cadeirydd yw goruchwyllo datblygiad y cynllun gwaith a'r agenda, sicrhau bod cyfleoedd cyfartal a chadeirio mewn cyfarfodydd	
5.12	Mae'r SGC yn awgrymu bod meddyg teulu a chynrychiolydd o'r trydydd sector yn rhan o'r Grŵp Arweinyddiaeth	
5.13	Canfu'r SGC fod angen gwella cyfleoedd cynnwys dinasyddion a theimlai fod y Panel Dinasyddion Rhanbarthol presennol yn brwydro i wneud gormod o bethau; fodd bynnag, teimlai'r SGC y gall dinasyddion gyfrannu at fwy o brosiectau rhanbarthol	
5.14	Cwestiynwyd ym mha ffyrdd gall y cyhoedd gysylltu â swyddogion a gweithredwyr	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
5.15	Cytunwyd bod yr adolygiad cwmpasu hyd yn hyn yn helpu i nodi sefyllfa bresennol y rhanbarth, a bod hyn yn gyfle delfrydol i ail-lunio a blaenoriaethu.	
5.16	Cytunwyd bod angen adolygu'r strwythur llywodraethu a'i ddiwygio os oes angen, er mwyn cynnwys gwybodaeth am ffrydiau gwaith a chynlluniau gweithredu. Teimlwyd hefyd ei fod yn annheg i un person gynrychioli barn llawer o ran gofalwyr a dinasyddion	
5.17	Nodwyd efallai bydd angen i'r rhanbarth gytuno i gymryd mwy o waith a chlustnodi mwy o adnoddau ar gyfer gweithio ar y cyd wrth symud ymlaen. Cytunwyd bod adnoddau'n cynnwys cymaint mwy na chyllid a chyllidebau'n unig	
5.18	Cytunwyd bod rhaid egluro rôl swyddfa'r rhaglen o ran rheoli prosiectau ac unrhyw ddisgwyliadau arweinyddiaeth posib yn well. Rôl bresennol Cyfarwyddwr y Rhaglen/Swyddog Arweiniol yw adrodd am lywodraethu mewn nifer o achosion	
5.19	Trafodwyd y posibilrwydd o ail-frandio er mwyn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth gyffredinol aelodau lleol a chynnig cyfle i gydlynhyrchu'r Cynllun Cyfathrebu gyda dinasyddion	
5.20	Awgrymwyd bod angen i Brif Weithredwyr, Cyfarwyddwyr, cynrychiolwyr y trydydd sector a dinasyddion archwilio rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a rheoli rhaglenni. Byddai'r grŵp yn ystyried llywodraethu ac egwyddorion gweithio	Grŵp Arweinyddiaeth i archwilio egwyddorion a sail y BPRh a llywodraethu wrth symud ymlaen
5.21	Pwysleisiodd KJ yr angen i ddiffinio egwyddorion cydgynhyrchu	

Ymunodd CL â'r cyfarfod.

6	Grant Trawsnewid	
6.1	Rhoddodd SHG y diweddaraf am y Grant Trawsnewid	
6.2	Mae'r arweiniad yn disgrifio sut bydd Cronfa Drawsnewid benodol yn cefnogi rhoi modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol cydlynol, wedi'u hyrwyddo gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ar waith. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyfrannu £100 miliwn i'r Gronfa Drawsnewid dros ddwy flynedd ariannol 2018-19 a 2019-20.	Dosbarthu arweiniad a llythyr i'r BPRh er gwybodaeth
6.3	Bydd y ffocws ar deuluoedd ac ymagwedd gydol oes, a sut i fwyafu cyfleoedd ar draws cymunedau	
6.4	Nodwyd bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ymddangos yn gadarnhaol am y newidiadau sydd eisoes yn cael eu gwneud, ond ei fod yn awgrymu bod angen i ddinasyddion ac undebau llafur gymryd rhan	
6.5	Byddai'r Grant Trawsnewid yn rhoi'r gallu i adeiladu ar gyfathrebu a chydlynhyrchu, a byddai hefyd yn rhoi cyfle i gysylltu â gwasanaethau sydd eisoes ar gael gan y cyngor, ac adeiladu ar y rhain wrth integreiddio gwasanaethau iechyd	
6.6	Amlygwyd y ffaith y gellid darparu hyfforddiant i ddinasyddion ac aelodau er mwyn iddynt allu ymddwyn fel 'cyfaill beirniadol' sy'n amlygu problemau ac yn adeiladu ymddiriedaeth wrth symud ymlaen	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
7	Adroddiad Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Cymhleth	
7.1	Adroddodd KM am ganfyddiadau ac argymhellion yr SGC a gafodd ei gomisiynu i fapio'r trefniadau presennol o ran ariannu plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth y mae angen cyllid dwyran neu deiran arnynt/sydd eisoes yn derbyn y cyllid hwn, ac i ystyried opsiynau ar gyfer prosesau a pholisïau'r dyfodol sy'n symleiddio'r broses i holl bartneriaid Bae'r Gorllewin	
7.2	Cynhaliodd yr SGC nifer o gyfweiliadau â rheolwyr; prif swyddogion ac arweinwyr perthnasol eraill yr awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd, yr oedd gan bob un ohonynt wybodaeth am anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.	
7.3	Adroddwyd nad oes unrhyw brotocolau gweithio ar y cyd rhwng unrhyw un o'r asiantaethau ar hyn o bryd mewn perthynas â'r grŵp hwn o blant a phobl ifanc. Roedd bylchau o ran dealltwriaeth y cyfweledigion mewn perthynas â'r broses a defnyddir i asesu plant a phobl ifanc â mathau gwahanol o anghenion cymhleth a'r math o ofal y byddant yn ei dderbyn a ble.	
7.4	Canfu'r SGC ei fod yn glir o'r gwaith a wnaed ar y prosiect hwn hyd yn hyn bod gweithwyr proffesiynol o'r asiantaethau sy'n rhan o'r prosiect yn ceisio diwallu anghenion teuluoedd ar sail achos-i-achos. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt wneud hyn heb unrhyw bolisïau a chanllawiau cyffredinol neu gyfatebol. Mae hyn yn achosi oedi o ran gwneud penderfyniadau, ansicrwydd a drwgdybiaeth rhwng cydweithwyr, ac achosion lle na ddiwellir anghenion.	
7.5	Argymhellodd yr SGC:	
7.5.1	Y dylid ffurfio grŵp arweinyddiaeth strategol â chynrychiolwyr corfforaethol (wedi'u henwebu gan SGS) o'r tri ALI, gan gynnwys gofal cymdeithasol ac addysg a'r Bwrdd Iechyd	
7.5.2	Dylai'r grŵp arweinyddiaeth strategol gadarnhau eu hymrwymiad ar y cyd i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r teulu	
7.5.3	Dylid cyflwyno sylwadau sy'n amlygu'r anghysondebau i Lywodraeth Cymru gyda'r gobaith y cânt eu nodi, ac y bydd system clir a thryloyw'n cael ei chyflwyno i'r holl asiantaethau.	
7.5.4	Dylid ystyried rhannu cyllidebau neu sefydlu matrices ariannu i hwyluso penderfyniadau cyllid.	
7.5.5	Dylai asiantaethau fabwysiadu ymagwedd y cytunwyd arni ar y cyd wrth ddatblygu'r holl ddogfennaeth a phrosesau, gyda'r nod penodol o sicrhau bod yr holl ddogfennaeth yn ddealladwy gan rieni/ofalwyr; llunio canllawiau a phrosesau sy'n glir ac yn dryloyw, gydag amserlenni penodol ar gyfer cwblhau camau gwahanol; sicrhau bod ymagwedd asiantaeth ar y cyd o'r dechrau; sicrhau bod sylwadau am brosesau gwneud penderfyniadau'n glir; cyfuno paneli a'u gwneud yn asiantaeth ar y cyd (lle bynnag y bo modd) i hwyluso'r broses gwneud penderfyniadau hanfodol/ar y cyd, a datblygu trefniadau/prosesau/matrics ariannu ar y cyd.	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
7.5.6	I sicrhau cysondeb ar draws pob asiantaeth, mae angen cytuno ar broses sicrhau ansawdd ar y cyd, ac mae hynny'n cynnwys nodi ac archwilio holl elfennau'r broses (gan gynnwys bylchau mewn gwasanaethau), o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt. Mae proses sicrhau ansawdd (gyda thempled) ar gael ar hyn o bryd gyda'r Bwrdd Iechyd ar gyfer meini prawf gofal parhaus.	
7.5.7	Dylid trefnu diwrnodau datblygu ar y cyd yn rheolaidd i reolwyr a staff eraill sy'n gyfrifol am benderfynu ar anghenion gofal y grŵp hwn o blant a phobl ifanc ac ar gyfer ariannu pecynnau gofal.	
7.6	Dywedodd KM wrth y Bwrdd y dylai Cam 2 gael ei gwblhau o fewn tri mis, a byddai'r SGC yn dychwelyd i adrodd i'r Bwrdd	
7.7	Nodwyd pa mor bell roedd y rhanbarth wedi dod a'r lefel o ymddiriedaeth rhwng partneriaid, fel a ddengys gan y lefel o onestrwydd a rannwyd yn yr adroddiad	
7.8	Cytunwyd bod rhaid dod o hyd i ffordd dryloyw newydd o weithio rhwng asiantaethau	
7.9	Bydd yr SGC yn rhoi gwybod am unrhyw ganfyddiadau i'r Grŵp Arweinyddiaeth wrth gwblhau Cam 2.	SGC i roi gwybod am unrhyw ganfyddiadau o Gam 2 i'r Grŵp Arweinyddiaeth ar ôl ei gwblhau
8	Y Diweddaraf am y Gronfa Gofal Integredig Ebrill -Mehefin 2018	
8.1	Gofynnwyd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gymeradwyo'r cynllun referniw ychwanegol i ddatblygu astudiaeth dichonoldeb ar gyfer Model Menter Gymdeithasol Gofal Cartref. Derbyniwyd y gymeradwyaeth	
8.2	Yn sgîl cwestiwn am arbenigedd ar y Bwrdd Gwasanaethau Cymunedol mewn perthynas â menter gymdeithasol, esboniwyd mai cais i ddehongli dichonoldeb yw hwn, ac i ddeall y risgiau cysylltiedig	
8.3	Darperir y diweddaraf yn y cyfarfod nesaf	Darparu'r diweddaraf am yr SGC yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref
9	Adroddiad Cynnydd y Cynllun Gweithredu Drafft	
9.1	Esboniodd KG i'r bwrdd mai dyma'r adroddiad cynnydd cyntaf yn erbyn y Cynllun Gweithredu	
9.2	Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi'r cynnydd hyd yn hyn o ran gweithredoedd allweddol, ac i gytuno ar lefel y manylion yn yr adroddiad	
9.3	Cytunwyd nad oedd angen unrhyw fanylion pellach ar y cam hwn ac y byddai unrhyw weithredoedd coch yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w trafod; byddai gweithredoedd gwyrdd ac ambr yn cael eu darparu er gwybodaeth yn unig	
9.4	Nododd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y cynnydd a wnaed hyd yn hyn	

Cyf	Rhif	Cam Gweithredu
9.5	Roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cymeradwyo'r templed fel dull o olrhain ac adrodd am gynnydd	
10	Newid i Ffiniau Pen-y-bont ar Ogwr	
10.1	Rhoddodd AD y diweddaraf am gynnydd y newid i'r Bwrdd	
10.2	AD yw cyd-gadeirydd y Bwrdd Trawsnewid, ynghyd â Marcus Longley	
10.3	Bydd SC yn cadeirio ffrwd waith y bartneriaeth, er nad yw wedi cwrdd eto. Bydd y grŵp yn trafod y gwaith sy'n cael ei drosglwyddo ac a fydd yn parhau i gael ei gyflawni ar ôl y symud i Gwm Taf	
10.4	Cytunodd y Bwrdd ar lefel yr her busnes fel arfer yn ystod y cyfnod hwn	
10.5	Darperir diweddariad llawn yn y cyfarfod nesaf	Darparu diweddariad llawn o ran symud CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn y cyfarfod nesaf
11	Adroddiad Blynyddol Bae'r Gorllewin	
11.1	Darparwyd yr Adroddiad Blynyddol er gwybodaeth	
12	Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Gofalwyr Bae'r Gorllewin	
12.1	Darparwyd yr Adroddiad Blynyddol er gwybodaeth	
13	UFA	
13.1	Symposiwm Iechyd a Thai Dywedodd MB wrth y Bwrdd y cynhelir Digwyddiad Symposiwm Iechyd a Thai ar 5 Hydref yn Stadiwm Liberty, Abertawe	Anfon nodyn i'r dyddiadur am y digwyddiad at aelodau'r BPRh
13.1.1	Gobeithio y bydd Gweinidogion yn bresennol ac y bydd AD ac RJ naill ai'n agor neu'n cau'r digwyddiad, gan ddibynnu ar argaeledd Gweinidogion	
13.1.2	Bydd nifer o siaradwyr gwadd a gweithdai perthnasol. Bydd mwy o fanylion ar gael ar ôl eu cadarnhau	
13.1.3	Os hoffai aelodau'r Bwrdd ofyn i unigolion penodol fod yn bresennol, mae angen rhoi gwybod i Elaine Tanner, Rheolwr Gweithredu Gwasanaethau Cymunedol, Bae'r Gorllewin - elaine.tanner@abertawe.gov.uk	

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

30 Hydref 2018

10.00 – 12.00

Y Ganolfan, Baglan

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm